# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 4

TRINIAETHAU ARBENNIG

*Apelau yn erbyn hysbysiadau stop a hysbysiadau camau adfer*

### 81 Apelau

(1) Caiff person (“P”) apelio i lys ynadon—

(a) yn erbyn hysbysiad a roddir i P o dan adran 77;

(b) yn erbyn hysbysiad a roddir i P o dan adran 78 neu 79;

(c) os rhoddir hysbysiad i P o dan adran 80(5), yn erbyn gwrthod cais P am dystysgrif gwblhau.

(2) Mae apêl i gael ei gwneud o fewn y cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy’n dechrau â dyddiad yr hysbysiad o dan sylw.

(3) Mae apêl i fod ar ffurf cwyn am orchymyn, ac yn unol â Deddf Llysoedd Ynadon 1980 (p.43).

(4) At ddibenion y terfyn amser ar gyfer gwneud apêl, mae gwneud y gŵyn i gael ei drin fel gwneud yr apêl.

(5) Ar apêl, caiff y llys ynadon—

(a) cadarnhau’r hysbysiad neu’r gwrthodiad;

(b) yn achos apêl yn erbyn hysbysiad a roddir i P o dan adran 77, 78 neu 79, ddiddymu neu amrywio’r hysbysiad;

(c) yn achos apêl yn erbyn gwrthod cais am dystysgrif gwblhau, ddiddymu’r gwrthodiad;

(d) mewn unrhyw achos, anfon yr achos yn ôl i’r awdurdod lleol i ymdrin ag ef yn unol â chyfarwyddydau a roddir gan y llys;

a chaiff wneud unrhyw orchymyn o ran costau y mae’n meddwl ei fod yn addas.

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(6) Pan fo llys ynadon, ar apêl o dan yr adran hon, yn diddymu neu’n amrywio hysbysiad a roddwyd i P gan awdurdod lleol, neu’n diddymu’r gwrthodiad i gais am dystysgrif gwblhau, caiff orchymyn i’r awdurdod lleol ddigolledu P am golled a ddioddefwyd o ganlyniad i gyflwyno’r hysbysiad neu (yn ôl y digwydd) y gwrthodiad.

(7) Caniateir i apêl gan y naill barti neu’r llall yn erbyn penderfyniad llys ynadon ar apêl o dan yr adran hon gael ei dwyn gerbron Llys y Goron.

(8) Ar apêl i Lys y Goron, caiff Llys y Goron—

(a) cadarnhau, amrywio neu wrth-droi penderfyniad y llys ynadon;

(b) anfon yr achos yn ôl i’r llys ynadon neu’r awdurdod lleol i ymdrin ag ef yn unol â chyfarwyddydau a roddir gan Lys y Goron.

(9) Nid yw dwyn apêl o dan yr adran hon yn erbyn hysbysiad a roddir gan awdurdod lleol yn atal dros dro effaith yr hysbysiad.